

## Eisteddfod yr Urdd – 2018

### Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

---

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

*NEB*

*Casgliad o dair cerdd sydd gan NEB, yn cyfeirio at dri man gwahanol, Bwcarést, Adra, a Dilyn. Dyma fardd sydd wedi ymdrwytho yn y grefft o lunio trosiadau. Roeddem fel beirniaid wedi mwynhau'r ddelwedd o'r eira yn y gerdd gyntaf lle mae'r wybren 'yn pupuro' i phrydferthwch' dros hen greithiau'r ddinas, a'r 'sbectol gwrw' sydd gan y bardd yn y gerdd olaf sy'n ei helpu i anwybyddu person anghenus yn y gwter. Myfyriwr yn gwyllo Netflix yn ei gartref ei hun sydd yn yr ail gerdd, a'i fywyd 'wedi ei fframio'n ddau wyneb', ac mae hon hefyd yn gerdd rymus. Mae'n defnyddio awch y myfyriwr i glicio o bennod i bennod 'mewn hen, hen gyfres' yn drosiad o fywyd yn gyffredinol, a*

*ninnau'n symud o bennod i bennod yn ein bywydau, heb sylweddoli y bydd yna adeg pan na fydd pennod arall i'w chael. Dyma fardd sy'n medru trin geiriau a mynegi'i hun yn ddisgybledig ac roeddem yn edmygu'i grefft yn hynny o beth. Gwendid y cerddi hyn yw nad ydynt yn gweithio fel cyfanwaith nac yn cyrraedd uchafbwynt. Mae angen gwell ymgysylltiad rhyngddynt. Pe byddai'r bardd wedi meddwl yn fwy dwys am saerniaeth ei gyfres, byddai'n nes o lawer at frig y gystadleuaeth.*